**Darllenwch y darn yma sy'n dangos bod mwy i'w wneud ym Mharis na mynd i fyny Tŵr Eiffel neu fynd am drip mewn cwch ar yr afon.**

# CARTHFFOSYDD PARIS

Beth ydy'r gair Cymraeg am "sewer"?
Mae nifer a dweud y gwir, e.e. carthffos, ceuffos, ffos garthion, ffos fudreddi.

Mae'r geiriau Cymraeg yma'n dda oherwydd maen nhw'n egluro beth yw "sewer", sef ffos neu dwnnel o dan y ddaear sy'n cymryd y carthion a'r budreddi. A dyna beth mae carthffosydd Paris yn ei wneud wrth gwrs - cymryd carthion a budreddi'r tai bach a'r dŵr o'r cwteri ar y strydoedd uwch eu pennau. Ond mae carthffosydd Paris yn enwog fel atyniad twristaidd. Ydyn wir!

## HANES DIDDOROL

Mae hanes diddorol i'r carthffosydd. Ar un adeg, roedd lladron yn arfer cuddio ynddyn nhw pan oedden nhw'n dianc rhag yn heddlu.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd yr Almaenwyr yn cysgodi ynddyn nhw pan oedd Paris yn cael ei bomio. Roedd y Résistance, sef gwŷr a gwragedd oedd yn ymladd dros Ffrainc, yn eu defnyddio nhw yn ystod yr Ail Ryfel Byd hefyd i gynllunio beth roedden nhw'n mynd i wneud – ac fel ysbytai hefyd!

## YMWELD Â'R CARTHFFOSYDD

Tan yn ddiweddar iawn, roedd hi'n bosib mynd o gwmpas y carthffosydd mewn cartiau bach, yna mewn cerbydau bach oedd yn cael eu tynnu gan injan locomotif, a hyd yn oed mewn cychod bach - tan yr 1970au. Dyna i chi hwyl ynte!

Erbyn heddiw, mae'r cartiau a'r cerbydau a'r cychod wedi mynd ond mae'n bosib cerdded i lawr y carthffosydd ac ymweld ag amgueddfa arbennig – amgueddfa'r carthffosydd.

.................................

Mae llawer o bethau diddorol yno, fel llygod mawr, neu lygod Ffrengig, marw sydd wedi eu stwffio, peipiau - llawer o beipiau a dweud y gwir - offer cynnal a chadw'r carthffosydd, modelau o weithwyr y carthffosydd yn eu dillad gwaith a pheli mawr o bren oedd yn cael eu defnyddio i lanhau'r twneli. Mae offer arall yno, sef peiriannau 'fflysio' oedd yn cael eu defnyddio pan oedd y carthion ac ati'n blocio'r twneli. Credwch neu beidio, roedd pobl yn arfer gwthio'r rhain drwy'r twneli! Yn ogystal, mae arddangosfeydd am hanes y carthffosydd, mapiau, lluniau a ffotograffau – a dŵr yn llifo i lawr o'r strydoedd uwch eich pennau! Gallwch chi wylio fideo yn y theatr fach neu brynu rhywbeth i gofio am eich ymweliad yn y siop fach hefyd.

Ydy hi'n drewi yno? Wel ydy, ychydig efallai, ond peidiwch â gadael i hynny eich rhwystro chi rhag dod i lawr i weld beth sy gan garthffosydd Paris i'w gynnig i chi.